

wedi dilyn cyrsiau mewn busnes a masnach yng Nghaerdydd, cofrestrodd yn fyfyrwr cerdd yn y Guildhall ac ymddengys mai fel cerddor proffesiynol yr enillai ei fywoliaeth cyn mynd at Foyle. Uno a'i gilydd a wnaeth busnes John Hughes a Foyle a chydabod hynny oedd gwneud y Cymro'n Rheolwr-Gyfarwyddwr cwmni newydd. Dichon fod y cwmni hwnnw wedi dod i ben gydag ymadawiad Hughes ac nid yr un oedd perthynas William Griffiths â chwmni Foyle lle'r oedd, fe ymddengys, yn bennaeth adran werthu a rheolwr y cyhoeddi Cymraeg (yr oedd Foyle, wrth gwrs, eisoes yn gyhoeddwr Saesneg). Mae William Griffiths yn haeddu ystyriaeth lwyrach na hyn gan iddo gyfrannu'n hynod ddeallus a gwybodus i drafodaethau yng Nghymru ar y fasnach lyfrau a llyfrgellyddiaeth gyhoeddus, ond nid dyna ddiben yr erthygl hon. Er hynny, teg yw nodi mai ef yn anad neb arall a fu'n gyfrifol am wneud Foyle's yn gyhoeddwr pwysig yn y Gymraeg a'i rhestr deitlau ac awduron yn un mor amrywiol, diddorol a dengar.

FOYLE'S YELLOW BOOK SERIES;

Foyle's Welsh Press Co., Ltd./Foyle's Welsh Press.

Cyfres o lyfrau (tua 120 o dudalennau) yn trafod rhai radicaliaid Cymreig yn ogystal â chwestiynau cyfoes am genedlaetholdeb yng Nghymru; eithriad yw'r llyfr ar y porthmyn. Gwyr hyddysg a phrofiadol yn eu meysydd oedd yr awduron ac yr oedd y llyfrynau'n gyfraniad sylweddol i'r drafodaeth wleidyddol-gymdeithasol yng Nghymru yn eu dydd. Dechreuwyd eu cyhoeddi yn 1937.

W. Hughes Jones, *What is happening in Wales? An open discussion on the Welsh awakening*. 1937. 9d.

J. E. Daniel, *Welsh Nationalism; what it stands for*. [1937]. 1/-

W. Hughes Jones, *Wales drops the pilots*. [1937]. 1/3.

T. Islwyn Nicholas (yn ddiweddarach, Islwyn ap Nicholas), *A Welsh Heretic ... Dr William Price, Llantrisant*. 1940. 6d.

Llewelyn Wyn Griffith, *Can Wales unite?* [1942]. 9d.

Walter Dowding, *Wales - know thyself! Wanted, a report on the nation*. [1943]. 2/-

Edgar L. Chappell, *The government of Wales*. 1943. 2/-

P. G. Hughes, *Wales and the drovers*. [1943]. 2/-(eto, Golden Grove Editions, Caerfyrddin, 1988).

Edgar L. Chappell, *Wake up, Wales! A survey of Welsh Home Rule activities*. 1943. 2/6.

Islwyn ap Nicholas, R. J. Derfel; *Welsh rebel, poet and preacher*. 1945. 2/-

Islwyn ap Nicholas, *Dic Penderyn; Welsh rebel and martyr*. 1946. 2/-

Islwyn ap Nicholas, *Iolo Morganwg; bard of liberty*. 1945. 2/6.

Tros y blynyddoedd datblygodd Gwasg Gymraeg Foyle restr safonol a sylweddol o deitlau a llwyddodd i ddenu rhai o awduron mwyaf adnabyddus a phoblogaidd y dydd, dan arweiniad John Hughes ar y dechrau ac yna gan William Griffiths. Y mae'n amlwg fod John Hughes, yn sgil profiad Foyle's, yn gweld y farchnad ysgolion yn un i anelu ati. D. J. Williams, *Gardd y plant; llyfr garddio i ysgolion*, 1927.

A. Gwynn Jones, *Telyn y plant*, 1928.

Myra Evans, *Llyfr Darllen i'r plant lleiaf* [1929].

John Hughes ac Ellis Roberts, (yr orgraff wedi'i diwygio gan Henry Lewis), *Beibl y Plant*, Mawrth 1929, Hydref 1929. (Yr oedd Ellis Roberts, prifathro ysgol yn Rotherhithe, yn flaenor ac yn ysgrifennydd yr eglwys yn Lewisham. Gwybodaeth gan Mr Meurig Owen.) Cafwyd argraffiad newydd gan Dŷ John Penry, a oedd wedi prynu hen stoc

Foyle's o'r llyfr, yn 1960, 1969.)

John Hughes ac Ellis Roberts, *The School Bible Anthology*, 1929.

Myra Evans, *Plant y goedwig, ail lyfr darllen*, [1930].

John Hughes ac Ellis Roberts, *Testament y Plant*, [1931].

John Hughes ac Ellis Roberts, *The School Testament Anthology*, 1931.

Enoch Cook-Rees, *Cymraeg i'r werin*, 1932.

A. Gwynn Jones, *Camau gwybodaeth*, 1934.

[*Llyfr y plant bach*, 1936?]

Ond gwelodd ef a'i olynydd bosibiliadau'r farchnad oedolion hefyd, gan daflu'r rhwyd yn eang i feysydd mwy cyffredinol ac i feirniadaeth lenyddol, rhyddiaith, barddoniaeth a dramâu. Ffrwyth cystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol oedd amryw o'r teitlau.

Ni hawlir fod y rhestrau hyn yn gyflawn ond rhoddant syniad go glir o gynnyrch Gwasg Gymraeg Foyle.

Eifion Wyn, *Caniadau'r Allt*, 1927; 2 arg. 1927. Cynan, *Caniadau*, 1927.

Elfyn, *Capelulo* (Cyfres Oriau Hamdden), 1927.

Saunders Lewis, *Pantycelyn*, 1927.

J. Jones-Roberts, *Elfennau Gwleidyddiaeth*, 1927.

Joseph Harry, *Priod-ddulliau'r Gymraeg*, 1927.

Iorwerth C. Peate, *Y cawg aur* (Cyfres Oriau Hamdden), 1928.

Ieuna Rees-Davies, gol., *Caniadau Cwm Rhondda* (Cyfres Oriau Hamdden), 1928.

Winnie Parry, *Y ddau hogyn rheiny* (Cyfres Oriau Hamdden), 1928.

R. Lloyd Jones, *Y Capten* (Cyfres Oriau Hamdden), 1928.

Moelona, *Breuddwydion Myfanwy* (Cyfres Oriau Hamdden), 1928.

Eddie Parry, *Cyfrinach y môr*, (drama), 1928.

Muriel M. Thomas, *Dream folk and fairies*, [drama], [1928].

Shirland Quin, *That which counts*, [drama], 1928.

Shirland Quin, *Elias and the mushrooms*, [drama], 1928.

Shirland Quin, *Antur fasnachol*, (drama), 1928.

Eifion Wyn, *Caniadau'r Allt*, 3 arg. 1929.

Eifion Wyn, *O drum i draeth*, 1929.

W. Ambrose Bebb, *Llydaw*, 1929.

R. Lloyd Jones, *Mêt y Mona*, 1929.

Joseph Harry, *Elfennau Beirniadaeth Lenorol*, 1929.

Cyfansoddiadau barddol buddugol Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 1930, 1930.

H. Elvet Lewis, *Israel and other poems*, 1930.

J. Cyndylan Jones, *Eternal truth in the eternal city: studies in the Epistle to the Romans*, 1930.

J. Cuming Walters, *Snowdonia, its scenes, shrines and stories*, [1930?]

Cenech, *Cerddi'r encil*, 1931.

Robert Beynon, *Dydd Calan ac ysgrifau eraill*, 1931.

R. W. Jones, *Bywyd cymdeithasol Cymru yn y ddeunawfed ganrif*, 1931.

John Roberts, *Methodistiaeth Galfinaidd Cymru*, 1931.

Louis N. Le Roux, *La langue des relations interceltique*, [1931].

T. H. Parry-Williams, *Ysgrifau* (Cyfres Oriau Hamdden), 1932.

Anna Sewell, *Y cel du* (*Black Beauty*), [1933].

T. E. Roberts, *Palestina hen a newydd*, 1933.

Aneirin ap Talfan a W. H. Reese, *Y ddau lais*, 1937.

D. Delta Evans, *Hiwmor, synnwyr a halen*, [1937].

D. W. Morgan, *Eleri*, [1937].

R. Gwyndaf Jones, *Tabitha*, [1938].

D. Emrys James (Dewi Emrys), *Odl a chynghanedd*, 1938.

R. Gwyndaf Jones, *Merch y clochydd*, [1939].

J. R. Lloyd Hughes, *Y prwll diwaelod*, [1939].

R. H. Watkins, *Teulu'r Hendre*, 1939.

Henry Hughes, *Through mighty seas*, 1939.

Huw Llewelyn Williams, *Safonau beirniadaeth lenyddol yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg*, [1941].

Geraint Dyfnallt Owen, *Aeddan Hopcyn*, 1942.

Shakespeare, cyfieithwyd gan T. Gwynn Jones, *Macbeth*, 1942.

Dewi Hiraddug, *Dwy stori mewn rhigwm* 1943.

T. Rowland Hughes, *O law i law*, 1943.

T. H. Parry-Williams, *Ysgrifau*, 1943.

Alun Llywelyn Williams, *Cerddi (1934-1942)*, 1944.

T. Rowland Hughes, *O law i law*, 2 arg., 1944.

Aneirin Talfan Davies, *Yr alltud*, 1944.

T. Rowland Hughes, *O law i law*, 3 arg., 1945.

Geraint Dyfnallt Owen, *Straeon o'r Llydaweg*, [1945].

R. J. Paul Williams, *Storiau'r meistri, rhai o ystoriau gorau y byd wedi eu cyfieithu o'r Ffrangeg*, 1945.

Aneirin ap Talfan, *Dyddiau'r ceiliog rhedyn*, 1945.

J. Lloyd Williams, *Y tri thelynor*, [1945].

J. Lloyd Williams, *Atgofion tri chwarter canrif, IV*, 1945.

T. Rowland Hughes, *O law i law*, 4 arg., 1946.

G. H. Morgan, *Rambles in the Vale*, [1948?].

Er na fu'n faes pwysig iddynt mentrodd Gwasg Gymraeg Foyle i fyd cyhoeddi cerddoriaeth a chynhwysai eu catalog gerddoriaeth Gymreig (*Catalog o'r darnau cerddorol Cymraeg a gyhoeddir gan Wasg Gymraeg Foyle*) yn 1932 'y darnau a gyhoeddwyd gan y Mri Rowlands Oxford Street, yr hawlfraint o ba rai a brynwyd gan Gwmni Cymraeg Foyle'. Yr oedd gan hwnnw restr safonol, rhwng 1925 a 1930, o ganeuon a rhanganau gan gyfansoddwyr megis J. Morgan Lloyd, David de Lloyd, D. Vaughan Thomas ac amryw o rai eraill. Nid wyf wedi llwyddo i weld catalog Foyle ond yr oedd eu rhestr yn cynnwys W. Matthews Williams, 'Alaeth', cân i soprano, 1928; G. W. Francis, 'Stars: ballad', duet for soprano and alto, 1928; W. Matthews Williams, 'Y Pffynnon', cân i soprano; E. J. Hughes, 'The tide rises, the tide falls', part song for male voices; W. Bradwen Jones, 'Cariad tad; Father's love', c.1930; H. T. Pritchard, 'Yr Enfys', cân i soprano [1931].

Daeth antur Gymraeg Foyle i ben yn 1946 pan ymadawodd William Griffiths (pa un bynnag oedd yr achos, a ph'r'n y canlyniad). Yr oedd ef wedi ennill môr o brofiad yn Charing Cross Road y daeth gydag ef i siop Griffs. Mentrodd y brodyr hwythau gyhoeddi rhai llyfrau. Llwyddasant i gadw rhai o enwau rhestr awduron Foyle, yn fwyaf arbennig y rhai Llundeinig, ond cryn orchest oedd agor eu rhestr hwy ag enw mor uchel ei fri â Thomas Jones.

Thomas Jones, *The native never returns*, [1946].

Hanes eglwys y Tabernacl, *King's Cross*, 1947.

Geraint Dyfnallt Owen, *Cefn Ydfa*, 1948.

Aneirin Talfan Davies, *Geu<thorn>r Llên*, 1948.

T. E. Nicholas, *The prison sonnets of T. E. Nicholas*, 1948.

T. Islwyn Nicholas, *Thus spake the prophets: an anthology of ancient social protest*, 1948.

Geraint Dyfnallt Owen, *Nest*, 1949.

Geraint Dyfnallt Owen, *Dyddiau'r gofid*, 1950.

Harri Gwynn, 'Difodiant; y bryddest ail orau yn Eisteddfod Genedlaethol Caerffili 1950, 1950.

Thomas Jones, *Welsh broth*, [1950]

T. J. Morgan, *Ysgrifau llenyddol*, 1951.

Y mae erthygl ddiddorol ar Siop Griffs yn Y Casglwr 4 (1978) t.9.